

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Sheree Davies
Addysg

Rôl: Swyddog Datblygu, Gwybodaeth ac

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan

Dyddiad: 22/04/2021

Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn

Ydw Nac Ydw

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i
impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi/cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinellwch ddiben y polisi.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymgynghori ar gynnig ad-drefnu ysgolion i gynyddu capasiti Ysgol Basaleg i 2,050 o fis Medi 2023. Mae'r ymgynghori wedi galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i holi barn pobl am y cynnig. Cyhoeddwyd y cynnig wedyn drwy hysbysiad statudol o'r 3 Mawrth 2021 – 1 Ebrill 2021. Gan fod gwrthwynebiadau wedi dod i law, ysgrifennwyd adroddiad gwrthwynebu, a bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried hynny wrth wneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.

Mae Ysgol Basaleg yn ysgol gymunedol a gynhelir yng Nghasnewydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Nifer mesuredig y lleoedd yn yr ysgol yw 1,747 a'r nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) ar gyfer blynyddoedd 7-11 yw 270. Ers agor Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî yn 2017 ar y datblygiad tai o'r un enw, nid yw nifer derbyn presennol Ysgol Basaleg bellach yn ddigon i ateb y galw yn y dalgylch am leoedd disgyblion. O ganlyniad, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig cynyddu'r nifer derbyn ar gyfer blynyddoedd 7-11 i 330, a thrwy hynny gynyddu nifer cyffredinol y lleoedd yn yr ysgol i 2,050 yn y pen draw, o fis Medi 2023.

Disgwylir i Ysgol Basaleg elwa o waith adnewyddu dan Fand B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Dan y trefniant hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi 65% o'r arian gofynnol, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig defnyddio'r cyfle hwn i ddarparu'r lleoedd ysgol ychwanegol yn y prosiect adnewyddu.

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi ymgynghori/sut byddwch chi'n ymgynghori â'r rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt. Cyfeiriwch yn benodol at ganllawiau AEDCh sy'n ymwneud â dyletswyddau iaith Gymraeg perthnasol.

Ymgwymerir â'r cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau sydd wedi cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chafodd ei ystyried pan benderfynodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen.

Anfonwyd negeseuon e-bost rhanddeiliaid at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd gan gynnwys rhieni, plant a staff yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Cyhoeddwyd y pecyn ymgynghori ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Lluniwyd Fersiwn Gryno i Blant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori hon. Mae hon a'r fersiwn lawn ar gael trwy wefan CDC www.newport.gov.uk/schoolreorganisation, ac roedd copïau caled ar gael ar gais gan y Ganolfan Ddinesig trwy e-bostio school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656.

Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd yn y DU, ac er mwyn helpu i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws, nid oedd y Cyngor yn cynnig unrhyw ddigwyddiadau galw heibio cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellid cyflwyno cwestiynau trwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk ac roedd swyddogion y Cyngor yn rhoi ymateb o fewn 7 diwrnod. Roedd hyn yn galluogi rhanddeiliaid i gyflwyno ymatebion gwybodus i'r ymgynghoriad. Mae rhestr o *Gwestiynau ac Atebion Cyffredin* hefyd wedi'i chyhoeddi ar dudalennau gwe'r Cyngor yn www.newport.gov.uk/addrefnuysgolion

Gellid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad trwy gwblhau arolwg ar-lein, anfon e-bost neu drwy ddefnyddio ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad papur a oedd ynghlwm wrth y ddogfen ymgynghori. Hefyd rhannodd y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook wybodaeth am y newidiadau arfaethedig.

Yn gyffredinol, derbyniwyd cyfanswm o 184 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda 154 o ymatebwyr (cyfwerth ag 84%) yn cefnogi'r cynnig. Gwnaed 176 o ymatebion trwy'r ffurflen ymateb safonol a chyflwynwyd 8 ymateb trwy e-bost.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gael barn dysgwyr, ac oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd, hwyluswyd hyn drwy gynnal sesiynau Holi ac Ateb i ddisgyblion ar Microsoft Teams, yn hytrach na gweithdai wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd sesiynau disgyblion yn Ysgol Basaleg a 6 ysgol gynradd y clwstwr.

Trefnwyd dwy sesiwn hefyd ar gyfer Fforwm Rhieni Ysgol Basaleg trwy Microsoft Teams, er nad oedd y sesiynau wedi mynd rhagddynt gan nad oedd unrhyw rieni wedi cofrestru.

Yn dilyn ymgynghoriad, ystyriodd Aelod Cabinet Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y safbwyntiau a fynegwyd ac a gyflwynwyd yn yr adroddiad ymgynghori ac yna penderfynodd fwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd, gyda chopïau wedi eu harddangos ar gatiâu ysgol Ysgol Basaleg. Parhaodd y cyfnod rhybudd statudol am 28 diwrnod rhwng 3 Mawrth a 1 Ebrill 2021 gan alluogi pobl i fynegi eu barn drwy gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd dau wrthwynebiad, ynghyd â phryderon a godwyd gan ddau barti arall, er na chafodd y rhain eu cyflwyno'n benodol fel gwrthwynebiadau. Gan fod gwrthwynebiadau wedi dod i law, ysgrifennwyd adroddiad gwrthwynebu, a bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried hynny wrth wneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.

3. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? (E.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati.) Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Mae'r Cod Statudol yn amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses hon sy'n cynnwys ysgolion, rhieni, aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac undebau llafur. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion blaenorol.

Y rhanddeiliaid allweddol y mae'r cynnig yn berthnasol iddynt yw plant, teuluoedd a gofalwyr sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Basaleg a/neu sy'n byw yn y dalgylch. Mae gan breswylwyr sy'n byw yn ardal Ysgol Basaleg hefyd bryderon ynglŷn â'r cynnig.

Mae Ysgol Basaleg wedi'i lleoli yn ward Graig, er bod dalgylch yr ysgol yn ymestyn i wardiau Maerun a Thŷ-du.

Mae ward Graig yn cynrychioli tua 7.5% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 4.07% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 15.08% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 15 oed, sef y bedwaredd boblogaeth uchaf o blant 5 i 15 oed yng Nghasnewydd ac yn uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 13.72%.

Mae ward Maerun yn cynrychioli tua 18.63% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 4.21% o boblogaeth Casnewydd. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 14.30% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 13.72%.

Mae ward Thŷ-du yn cynrychioli tua 4.54% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 6.97% o boblogaeth Casnewydd. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 13.77% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 13.72%.

Datblygwyd y cynnig o ganlyniad i'r niferoedd cynyddol yn Ysgol Basaleg lle cafwyd cynnydd eisoes yn ei Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 247 i 270 ym mis Medi 2014 ac aeddfedodd hyn trwy'r ysgol gyfan ym mis Medi 2018. Oherwydd y datblygiadau tai newydd (Parc y Jiwbilî a Chlwb Golff Parc Tredegar) yn nalgylch Basaleg, bu hyd yn oed fwy o alw am leoedd yn Ysgol Basaleg.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd am randdeiliaid wedi dod o'r ffynonellau canlynol:

- Proffiliau lles cymunedol Casnewydd – wardiau Graig, Maerun a Thŷ-du
- StatsCymru
- Cyfrifiad Disgyblion

Mae'r mwyafrif – sef, wyth deg pedwar y cant – o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, nododd nifer bach o drigolion lleol eu pryderon ynghylch tri mater allweddol:

- Traffig, tagfeydd a diogelwch ar y ffyrdd
- Parcio a'r amgylchedd lleol
- Lles a chyrraethiad disgyblion

Ymdrinnir â'r pryderon hyn yn yr adroddiad ymgynghori a bydd materion traffig, diogelwch a'r amgylchedd yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio.

Parodd y cyfnod hysbysu statudol am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, gan alluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd dau wrthwynebiad, ynghyd â phryderon a godwyd gan ddau barti arall, er na chafodd y rhain eu cyflwyno'n benodol fel gwrthwynebiadau. Roedd y gwrthwynebiadau ffurfiol a'r meysydd pryder yn cwmpasu ystod eang o bynciau fel y rhestrir isod:

1. Effaith traffig yn yr ardal leol
2. Maint dalgylch yr ysgol
3. Maint posibl yr ysgol ac effaith ar gyrhaeddiad
4. Opsiynau amgen ar gyfer darpariaeth uwchradd yn yr ardal
5. Cyfle i gydweithio ag ALI cyfagos
6. Cyfle posibl i ad-drefnu darpariaeth Ôl-16
7. Pryderon ynghylch effaith caeau 3G arfaethedig
8. Anallu'r Cyngor i gyflwyno'r cynnig arfaethedig
9. Gwaethygu materion ymddygiad gwrthgymdeithasol
10. Dadansoddiad Opsiynau annigonol a gwan

Mae'r gwrthwynebiadau ac ymatebion Cyngor Dinas Casnewydd wedi'u crynhoi mewn adroddiad gwrthwynebu, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu'n cael ei ystyried pan fydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.



4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlynid cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel rhan o'r cynnig, bydd cynnydd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd yn nalgylch Basaleg a fydd yn helpu i ateb y galw ychwanegol o ddatblygiadau tai newydd. Mae cynnyddu nifer y lleoedd ysgol o 1,747 i 2,050 yn golygu y bydd plant yn y dalgylch yn fwy tebygol o gael lle yn ysgol uwchradd eu dalgylch a fyddai wedi'i gordanysgrifio fel arall. Bydd y cynnydd yn y lleoedd sydd ar gael yn rhoi cyfle i bawb yng Nghasnewydd a'r tu allan i Gasnewydd wneud cais amdanynt, gyda'r lleoedd yn cael eu dyrannu trwy feini prawf gordanysgrifio'r Cyngor os daw mwy o geisiadau i law na'r lleoedd sydd ar gael. Amlinellir y meini prawf gordanysgrifio yn y Polisi Derbyn i Ysgolion.
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd y cynnig yn cael effaith fuddiol sylweddol ar bobl sy'n byw gydag anableddau. Bydd yr holl waith a gwblheir ar gyfer yr ehangu arfaethedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys disodli'r



Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill	
				cyfleusterau presennol sy'n hen ffasiwn ac wedi'u gwasgaru ar draws safle'r ysgol gyda chyfleusterau newydd sbon a fydd yn gwbl hygyrch, yn cydymffurfio ac yn agosach at ei gilydd.
Ailbennu rhywedd / trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a fydd yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn nes cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon. I rieni sy'n disgwyl, rhagwelir y bydd lleoedd ysgol ychwanegol yn Ysgol Basaleg yn cael effaith gadarnhaol ar y posibiladau o blant yn cael lle yn eu hysgol leol.
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a fydd yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn nes cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a fydd yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn nes cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill	
				Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a fydd yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn nes cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a fydd yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn nes cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ysgol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Basaleg. Fodd bynnag, bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Cymraeg 2050.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwysu angen byrdymor ag anghenion hirdymor</p>	<p>Bu cynnydd o bron 3,500 o bobl ym mhoblogaeth Casnewydd rhwng 2011 a 2016, a bu cynnydd o 1,475 ym mhoblogaeth ysgolion cynradd Casnewydd rhwng mis Ionawr 2014 a mis Ionawr 2019. Wrth i'r disgyblion hyn aeddfedu, mae'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion yn trosglwyddo i'n hystâd ysgolion uwchradd, a adlewyrchir yn ein rhagolygon poblogaeth disgyblion.</p> <p>Mae dros 1000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn natblygiad Parc y Jiwbilî, sydd ond milltir i ffwrdd ac sydd o fewn dalgylch Ysgol Basaleg. Ymhlith y datblygiadau llai eraill yn yr ardal mae datblygiad Llys Carnegie a fydd yn darparu 150 o gartrefi ychwanegol. Agorodd Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî ym mis Medi 2017 i ddarparu lleoedd ysgol gynradd i blant sy'n byw ar y datblygiad hwnnw. Y chweched ysgol gynradd yng nghlwestwr Ysgol Basaleg oedd yr ysgol hon.</p> <p>Mae cyfraddau genedigaethau uchel a theuluoedd newydd sy'n symud i ardaloedd Basaleg a Thŷ-du wedi arwain at gynnydd yn y boblogaeth, sy'n golygu nad yw'r nifer derbyn ar gyfer Ysgol Basaleg bellach yn ddigon i dderbyn yr holl ddisgyblion sy'n symud ymlaen i'r ysgol uwchradd o ysgolion cynradd y clwstr. Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth roedd rhaid creu dosbarthiadau ysgol gynradd dros dro ychwanegol yn ysgolion cynradd High Cross, Bryn Hyfryd a Thŷ-du rhwng 2011 a 2016 i ddarparu lleoedd ychwanegol. Cyflwynwyd dosbarth swigen ar gyfer carfan Medi 2020 yn Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd a bydd un arall yn cael ei greu yn Ysgol Gynradd High Cross i gefnogi carfan Medi 2021.</p> <p>Bydd y cynnig yn estyn gallu Ysgol Basaleg i newid cyfleusterau cyfredol a hen ffasiwn am gyfleusterau newydd sy'n cydymffurfio'n llawn ac yn agosach at ei gilydd ar safle'r ysgol. Mae rhagamcanion yr ysgol yn dangos y bydd carfan Basaleg yn fwy na'r NDC am o leiaf y pedair blynedd nesaf. Pe bai pob disgybl yn y garfan yn gwneud cais am le yn Ysgol Basaleg, byddai ceisiadau'n cael eu gwrthod a allai gynnwys rhai yn y dalgylch a gyflwynir ar amser.</p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid ac fe'i cefnogwyd ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.</p> <p>Bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno trwy ymgysylltu'n llawn â thîm arwain Ysgol Basaleg.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
<div data-bbox="233 815 363 972" data-label="Image"> </div> <p data-bbox="145 999 421 1099">Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p data-bbox="459 304 1362 338">Cafodd y rhanddeiliaid canlynol eu cynnwys yn y broses ymgynghori:</p> <ul data-bbox="507 342 1410 1245" style="list-style-type: none"> • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion yr effeithir arnynt; • Disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt; • Aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt; • Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy; • Yr Archesgobaeth Gatholig; • Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru; • Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd; • Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd; • Holl Benaethiaid Gwasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd; • Y Cyngor Cymuned Lleol; • Gweinidogion Cymru; • Aelodau'r Senedd (AoS) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion; • Estyn; • Undebau llafur staff a staff addysgu sy'n cynrychioli athrawon a staff a gyflogir yn yr holl ysgolion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt; • Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru; • Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent; • Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent; • Gwasanaethau ataliol <p data-bbox="459 1279 1410 1413">Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, cafodd Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Addysg a Sgiliau'r a wnaeth y penderfyniad i fwrw ymlaen, a chyhoeddwyd hysbysiad statudol.</p> <p data-bbox="459 1447 1410 1581">Ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol, gan fod gwrthwynebiadau wedi dod i law, ysgrifennwyd adroddiad gwrthwynebu a bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried hyn wrth wneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Prevention</p> <p>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p>Yn ardal Basaleg a Thŷ-du mae datblygiadau tai'n cael eu hadeiladu, a'r mwyaf o'r rhain yw datblygiad Parc y Jiwbilî. Mae pwysau ar leoedd mewn ysgolion uwchradd yng Nghasnewydd gyda llawer o ysgolion uwchradd yn llawn trwy geisiadau a gyflwynwyd ar amser, yn enwedig yng ngorllewin y ddinas. Mae Ysgol Basaleg dan bwysau oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth y dalgylch ac, o ganlyniad, mae lleoedd ychwanegol eisoes wedi'u darparu i gefnogi carfannau Medi 2019 a Medi 2020. Heb y cam hwn, ni fyddai plant sy'n byw yn y dalgylch ac yn cyflwyno cais ar amser wedi cael cynnig lle. Bydd cynnydd parhaol yn y NDC yn atal hyn rhag parhau yn y dyfodol. Er bod angen lleoedd mewn ysgolion, mae trigolion lleol wedi codi pryderon ynghylch gwaethygu problemau traffig yn yr ardal. Bydd yr effaith ar draffig a'r gwrthgynigion priodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio.</p>
 <p>Integration</p> <p>Ystyried effaith ar bob nod lles ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol ac fe'i cefnogwyd ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Lles "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Lles eraill.</p> <p>Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Lles Cyngor Dinas Casnewydd i "wella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</p>

6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghyfartal ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae Ysgol Basaleg eisoes yn ysgol sefydledig sy'n agored i ddisgyblion ledled y ddinas. Mae'r cynnig yn cefnogi disodli cyfleusterau o ansawdd gwael ar hyn o bryd wrth gynyddu lle yn yr ysgol. Bydd y cynnig o fudd i glwstwr Basaleg yn gyffredinol, gan y bydd mwy o leoedd ar gael mewn ardal lle mae datblygiadau tai eisoes ar y gweill, a lle mae mwy o le yn ysgolion cynradd y clwstwr nag sydd yn yr ysgol uwchradd.

7 Sut mae'r cynnig/polisi'n berthnasol i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth

Mae'r cynnig yn cefnogi poblogaeth amrywiol a chynyddol lle bydd angen lleoedd ychwanegol mewn ysgolion, gydag amcanestyniadau disgyblion ar gyfer Ysgol Basaleg yn dangos y bydd diffyg lle yn yr ysgol gyda charfan fwy ymhlith ysgolion y clwstwr nag y gall yr ysgol uwchradd ddarparu ar ei chyfer.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Mae lleoedd ar gael mewn ysgolion ledled Casnewydd i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhianta dros blentyn wneud cais amdanynt, gyda cheisiadau'n cael eu prosesu gan y Tîm Derbyn i Ysgolion yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion. Bydd y lleoedd ychwanegol a grëir trwy'r cynnig hwn yn cael eu dyrannu fel hyn. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynnir yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor yn cael eu dilyn i bennu blaenoriaeth.

Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a dwyochredd o fewn perthnasoedd cymunedol

Bydd y lleoedd ychwanegol sy'n cael eu cynnig yn dod â manteision ar draws clwstwr Basaleg lle mae datblygiadau tai'n cael eu hadeiladu mewn ardaloedd lle mae'r ysgolion uwchradd lleol yn agos at lenwi pob lle, neu lle mae diffyg lle.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau ac mae'n dryloyw ac yn atebol o ran yr wybodaeth a ddarperir. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol ac mewn modd democrataidd.

8. Effeithiau Cydraddoldeb a Chamau Gweithredu

Cwblhewch y cynllun gweithredu isod sy'n nodi'r camau a fydd yn cael/na fydd yn cael eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y mae eich asesiad wedi'u nodi.

Effaith a nodwyd	Ar bwy y mae'n effeithio?	Beth wnewch chi i liniaru'r effaith? Os ydych yn bwriadu peidio â gweithredu, rhowch y rhesymau dros y penderfyniad hwn	Pwy sy'n gyfrifol?
Yr amgylchedd	Preswylwyr lleol	<p>Mae'r cynnig i gynyddu lleoedd yn Ysgol Basaleg yn ymateb uniongyrchol i ddatblygiad tai newydd yn yr ardal gyfagos ym Mharc y Jiwbilî a Chlwb Golff Parc Tredegar, y mae'r ddau ohonynt o fewn pellter cerdded hawdd i'r ysgol. Felly, mae'r effaith ar draffig eisoes wedi'i chyfrifo i raddau helaeth yn y ceisiadau cynllunio ar gyfer y ddau ddatblygiad hynny, mewn ardal lle bu buddsoddiad diweddar mewn gwelliannau i gynllun y ffyrdd a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, mae ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi egluro eu pryderon ynghylch effaith mwy o ddisgyblion ar draffig, diogelwch a thagfeydd yn yr ardal. Mae llwybr cerdded diogel yn bodoli eisoes rhwng datblygiad Parc Jiwbilî a safle'r ysgol, a rhoddir ystyriaeth i welliannau i hyn fel rhan o'r cynllun arfaethedig.</p> <p>Mae gwell mynediad a chyfleusterau parcio yn cael eu cynnwys yn y cynigion dylunio ar gyfer y datblygiad, a fydd hefyd yn ceisio lleihau nifer y cerbydau chweched dosbarth y mae angen eu parcio ar y strydoedd lleol y tu allan i safle'r ysgol.</p>	Cyngor Dinas Casnewydd

		Mae llwybrau diogel i'r ysgol a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â chydweithwyr yng Ngwasanaethau'r Ddinas. Ystyrir bod datblygu strategaeth deithio gydlynol a chynllun teithio i'r ysgol i hyrwyddo dewisiadau teithio sy'n ystyriol o ecoleg yn rhan annatod o'r cynllun arfaethedig a chaiff ei gyflwyno fel rhan o'r pecyn cais cynllunio.	
Y Gymraeg	Disgyblion	Ysgol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Basaleg. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Cymraeg 2050. Fodd bynnag, bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.	Cyngor Dinas Casnewydd

9. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Cafodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wnaed drwy gydol yr ymgynghoriad eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chafodd ei ystyried pan benderfynodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd y farn a fynegwyd ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda chyhoeddi hysbysiad statudol. Roedd y cyfnod hysbysiad statudol yn para 28 diwrnod ar ôl y dyddiad cyhoeddi, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a'i bostio wrth gatiâu Ysgol Basaleg. Gwnaeth hyn alluogi pobl i fynegi eu barn i gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Gan fod gwrthwynebiadau wedi dod i law, ysgrifennwyd adroddiad gwrthwynebu, a bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried hynny wrth wneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.

10. Cynnwys Pobl

Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig. Roedd y cynnig ar gael ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg, trwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, ac fel copi caled. Gellid cyflwyno cwestiynau ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgynghori ac ymatebwyd iddynt o fewn 7 diwrnod – gwnaeth hyn ddisodli'r sesiwn galw heibio arferol oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad â disgyblion trwy gyfarfodydd Microsoft Teams a thrwy holiaduron. Trefnwyd dwy sesiwn hefyd ar gyfer Fforwm Rhieni Ysgol Basaleg trwy Microsoft Teams, er nad oedd y sesiynau'n mynd rhagddynt gan nad oedd unrhyw rieni wedi mynegi diddordeb mewn mynychu. Cofnodwyd a chrynhwyd unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wnaed trwy gydol y broses mewn adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. Mae'r mwyafrif – sef, wyth deg pedwar y cant – o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, nododd nifer bach o drigolion lleol eu pryderon ynghylch tri mater allweddol:

- Traffig, tagfeydd a diogelwch ar y ffyrdd
- Parcio a'r amgylchedd lleol
- Lles a chyrhaeddiad disgyblion

Ymdrinnir â'r pryderon hyn yn yr adroddiad ymgynghori a bydd y materion traffig, diogelwch a'r amgylchedd yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio.

Parodd y cyfnod hysbysu statudol am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, gan alluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd dau wrthwynebiad, ynghyd â phryderon a godwyd gan ddau barti arall, er na chafodd y rhain eu cyflwyno'n benodol fel gwrthwynebiadau. Roedd y gwrthwynebiadau ffurfiol a'r meysydd pryder yn cwmpasu ystod eang o bynciau, fel y rhestrir isod:

1. Effaith traffig yn yr ardal leol
2. Maint dalgylch yr ysgol
3. Maint posibl yr ysgol ac effaith ar gyrhaeddiad
4. Opsiynau amgen ar gyfer darpariaeth uwchradd yn yr ardal
5. Cyfle i gydweithio ag ALI cyfagos
6. Cyfle posibl i ad-drefnu darpariaeth Ôl-16
7. Pryderon ynghylch effaith caeau 3G arfaethedig
8. Anallu'r Cyngor i gyflwyno'r cynnig arfaethedig
9. Gwaethygu materion ymddygiad gwrthgymdeithasol
10. Dadansoddiad Opsiynau Annigonol a gwan

Mae'r gwrthwynebiadau ac ymatebion Cyngor Dinas Casnewydd wedi'u crynhoi mewn adroddiad gwrthwynebu, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu'n cael ei ystyried pan fydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.